Y Comisiwn Etholiadol

Etholiad Senedd Cymru

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 1 o 6 - A allwch sefyll etholiad?

Mae'r ddogfen hon yn gymwys at etholiad ar gyfer Senedd Cymru. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU o'n gwefan trwy: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-cynulliad-cenedlaethol-cymru

Cynnwys

Cymwysterau ar gyfer sefyll etholiad **4**

Anghymwysiadau **4**

Swyddi anghymhwysol 4

Methdaliad 5

Carcharu a phenderfyniadau llys 6

Sefyll mewn mwy nag un etholiad 6

ASau sy'n sefyll etholiad ar gyfer Senedd Cymru **7**

A allwch sefyll etholiad?

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar b'un a allwch sefyll etholiad ar gyfer Senedd Cymru, boed hynny fel ymgeisydd etholaethol, fel ymgeisydd rhestr plaid yn yr etholiad rhanbarthol, neu fel ymgeisydd unigol yn yr etholiad rhanbarthol.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at bob ymgeisydd sy'n sefyll yn etholiadau Senedd Cymru. Os bydd ein canllawiau ond yn gymwys i fath penodol o ymgeisydd, caiff hyn ei nodi'n benodol.

Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol.

Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Mae'r dyddiadau cau a grybwyllir yn y ddogfen hon yn rhai generig, ac rydym wedi cyhoeddi amserlen etholiad generig ar ein gwefan.

O ran etholiadau trefnedig, byddwn yn cyhoeddi amserlen etholiad sy'n cynnwys y dyddiadau cau penodol ar gyfer y pleidleisiau hynny, y gallwch eu llwytho o'n gwefan.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Gweler ein Dogfen drosolwg am fanylion cyswllt.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu data personol yn ei gyfanrwydd. Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae'r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol yn effeithio arnoch chi.

Cymwysterau ar gyfer sefyll etholiad

1.1 Er mwyn gallu sefyll fel ymgeisydd etholaethol neu ranbarthol ar gyfer Senedd Cymru rhaid i chi, ar y diwrnod y cewch eich enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio, fod:

- yn 18 mlwydd oed o leiaf, ac yn
- ddinesydd Prydeinig, dinesydd cymwys y Gymanwlad, dinesydd tramor cymwys, dinesydd Gweriniaeth yr Iwerddon, neu ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig. Nid oes unrhyw ofyniad yn ôl y gyfraith i chi fod yn etholwr cofrestredig yng Nghymru.

Anghymwysiadau

1.2 Ar wahân i fodloni'r cymwysterau ar gyfer sefyll etholiad, rhaid i chi hefyd beidio â chael eich anghymwyso rhag sefyll ar ddiwrnod eich enwebiad ac ar y diwrnod pleidleisio.

Swyddi anghymhwysol

1.3 Caiff rhai swydd-ddeiliaid eu hanghymwyso rhag dod yn Aelod o Senedd Cymru, a rhag bod yn ymgeisydd. Nodir y rhain yn Nhabl 2 yn Rhan 2 Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac maent yn cynnwys:

- barnwyr
- gweision sifil
- aelodau o'r lluoedd arfog rheolaidd
- aelodau o unrhyw heddlu
- aelodau o ddeddfwrfa unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU
- y rhai sy'n dal swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru
- y rhai sy'n dal swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- y rhai sy'n dal swydd arglwydd raglaw, is-gapten neu uchel-siryf unrhyw ardal yng Nghymru

Dinesydd **cymwys** y Gymanwlad yw dinesydd y Gymanwlad:

- nad oes angen caniatâd arno i ddod i mewn i'r DU neu aros yno, neu
- sydd â chaniatâd penagored i aros yn y Deyrnas Unedig.

Cyhoeddir deddfwriaeth gan yr Archifau Cenedlaethol.

Gallwch weld Gorchymyn Anghymhwyso Senedd Cymru 2020

Gellir gweld Deddf Anghymwyso Tŷ'r Cyffredin a Deddf Llywodraeth Cymru trwy www.deddfwriaeth.gov.uk. Fodd bynnag, efallai na fydd y ddeddfwriaeth ar y wefan bob amser yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth fel y mae ar hyn o bryd - er enghraifft, adeg ei hysgrifennu, mae yna newidiadau arfaethedig i Ddeddf Anghymwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 sydd heb eu cynnwys eto yn y fersiwn ar y wefan.

Os oes amheuaeth gennych, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hunan.

- y rhai sy'n dal swydd Comisiynydd neu Gomisiynydd Ymchwilio ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- y rheiny sy'n dal swydd Comisiynydd Plant, Dirprwy Gomisiynydd Plant, Comisiynydd Pobl Hŷn, Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd y Gymraeg neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ac unrhyw aelodau o Banel Ymgynghori Comisiynydd y Gymraeg
- y rhai a gyflogir fel aelod o staff y Senedd. Nid yw ymgeiswyr a gyflogir yn uniongyrchol gan Aelodau'r Senedd na chan Gomisiwn y Senedd ei hun wedi'u hanghymhwyso rhag sefyll etholiad. Fodd bynnag, gall cydberthnasau cyflogaeth fod yn gymhleth, ac rydym yn cynghori unrhyw un nad yw'n siŵr a yw wedi'i anghymwyso ai peidio i siarad ag adran AD y Senedd er mwyn cadarnhau eu trefniadau cyflogaeth a/neu geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain

1.4 Gall rhai swydd-ddeiliaid a restrir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, ond, pe baent yn llwyddiannus, byddai'n rhaid iddynt ymddiswyddo cyn tyngu'r llw teyrngarwch (neu cyn gwneud y cadarnhad cyfatebol).

1.5 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a cheir rhestrau manwl o'r anghymwysiadau yn Neddf Llywodraeth Cymru (fel y'i diwygiwyd), a Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

Methdaliad

1.6 Nid yw methdaliad ynddo'i hun yn anghymwysiad. Os ydych wedi'ch dyfarnu yn fethdalwr gan lys yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, nid ydych wedi eich anghymhwyso ar y sail honno, ar yr amod nad ydych hefyd yn destun unrhyw anghymwysiadau methdalu penodol a restrir isod ar hyn o bryd:

- rydych yn destun gorchymyn rhyddhad ar ddyledion neu orchymyn cyfyngu rhyddhad ar ddyledion dros dro, gorchymyn methdalu, neu orchymyn methdalu dros dro a

wnaed gan lys yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu
- mae eich ystâd wedi cael ei secwestru gan lys yn yr Alban ac nid ydych wedi cael eich rhyddhau

Carcharu a phenderfyniadau llys

1.7 Cewch eich anghymhwyso o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 os ydych wedi cael eich euogfarnu am drosedd, ac os ydych wedi cael eich dedfrydu neu eich gorchymyn i garchar neu eich cadw'n gaeth am gyfnod amhenodol neu am fwy na blwyddyn, ac os ydych wedi cael eich cadw'n gaeth unrhyw le yn y DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu unrhyw le arall yn yr Undeb Ewropeaidd, neu os ydych yn rhydd yn anghyfreithlon pryd byddech fel arall wedi eich cadw'n gaeth.

1.8 Mae enwebiad unigolyn a gafodd ei anghymhwyso ar y sail a amlinellir ym mharagraff 1.7 ddi-rym, a bydd y Swyddog Canlyniadau yn gwrthod ei enwebiad.

1.9 Cewch eich anghymhwyso hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 os cawsoch eich euogfarnu am arfer etholiadol llwgr neu anghyfreithlon neu am drosedd yn ymwneud â rhoddion. Mae anghymhwyso rhywun am arfer anghyfreithlon yn dechrau o'r dyddiad y cafwyd y person hwnnw yn euog gan lys etholiadol neu o'r dyddiad y cafodd ei euogfarnu, ac mae'n para am dair blynedd. Mae anghymhwyso rhywun am arfer llwgr yn dechrau o'r dyddiad y cafwyd y person hwnnw yn euog gan lys etholiadol neu o'r dyddiad y cafodd ei euogfarnu ac mae'n para am bum mlynedd.

1.10 Rydych hefyd wedi eich anghymhwyso os ydych yn destun gofynion hysbysu, neu orchymyn, o dan Adran 2 Deddf Troseddau Rhywiol 2003.

Sefyll mewn mwy nag un etholiad

1.11 Gallwch fod yn ymgeisydd ar gyfer etholaeth a rhanbarth, cyhyd ag y bo'r etholaeth o fewn y rhanbarth. Os gwnewch hyn, rhaid i chi sefyll dros yr un blaid yn y ddau etholiad, neu sefyll fel ymgeisydd yn annibynnol yn y ddau. Os cewch eich ethol yn yr etholiad etholaethol, caiff eich enw ei anwybyddu wrth ddyrannu seddau rhanbarthol.

1.12 Ni allwch sefyll mewn mwy nag un etholaeth neu fwy nag un rhanbarth.

ASau sy'n sefyll etholiad ar gyfer Senedd Cymru

1.13 Ni all aelodau o Dŷ'r Cyffredin fod yn aelodau o'r Senedd. Er y gallant sefyll fel ymgeiswyr yn etholiad y Senedd, pe baent yn llwyddiannus, byddai'n rhaid i ASau ildio eu sedd yn Nhŷ'r Cyffredin o fewn wyth diwrnod calendr i gael eu hethol i'r Senedd .

1.14 Gallwch hefyd fod yn ymgeisydd mewn etholiad Seneddol yn y DU ac mewn etholiad ar gyfer Senedd Cymru. Yn y senario lle y cewch eich ethol yn Aelod o'r Senedd a'ch ethol wedyn i Dŷ'r Cyffredin, cewch eich anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd os na fyddwch yn ildio eich sedd yn Nhŷ'r Cyffredin o fewn wyth diwrnod calendr i gael eich ethol fel AS.

Swydd-ddeiliaid eraill sy'n sefyll yn etholiad y Senedd

1.15 Ni all rhai swydd-ddeiliaid fod yn Aelodau o'r Senedd. Mae'r swyddi hyn yn cynnwys:

- aelodau o Senedd yr Alban
- aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon

  Gall Aelodau o Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, ond pe baent yn llwyddiannus, byddai rhaid iddynt ymddiswyddo cyn tyngu'r llw teyrngarwch (neu cyn gwneud y cadarnhad cyfatebol).

- aelodau o Dŷ'r Arglwyddi

Gall Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, ond pe baent yn llwyddiannus, byddai rhaid iddynt ildio'u swydd yn Nhŷ'r Arglwyddi o fewn wyth diwrnod calendr iddynt gael eu hethol i'r Senedd.

- aelodau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref yng Nghymru

Gall aelodau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, pe baent yn llwyddiannus, byddai'n rhaid iddynt eisoes feddu ar ganiatâd i ymabsenoli o Dŷ'r Arglwyddi, neu byddai'n rhaid iddynt eisoes bod wedi gwneud cais absenoldeb sydd heb ei wrthod na'i dynnu'n ôl.

Os bydd aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref yng Nghymru yn cael ei ethol i'r Senedd, ac os bydd dyddiad disgwyliedig yr etholiad cyngor sir/cyngor bwrdeistref trefnedig nesaf o fewn 372 diwrnod i'r dyddiad y cânt eu hethol i'r Senedd, gall y cynghorydd aros yn y swydd am gyfnod sy'n cychwyn ar y diwrnod y cânt eu hethol ac yn dod i ben ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad cyngor trefnedig nesaf.

Mae'r ystod lawn o anghymwysiadau yn gymhleth, ac os nad ydych yn siŵr p'un a ydych wedi eich anghymhwyso ai peidio, rhaid i chi wneud popeth a allwch i sicrhau nad ydych wedi eich anghymhwyso cyn cyflwyno eich papurau enwebu.

Mae'n rhaid i chi sicrhau nad ydych wedi eich anghymhwyso gan y bydd gofyn i chi lofnodi un o'r papurau enwebu gofynnol i gadarnhau nad ydych wedi eich anghymhwyso.

Mae gwneud datganiad ffug ar eich papurau enwebu o ran eich cymhwyster i gael eich ethol yn drosedd, ac felly os nad ydych yn siŵr, dylech gysylltu â'ch cyflogwr, cyfeirio at y ddeddfwriaeth, neu, os oes angen, geisio eich cyngor cyfreithiol eich hunan.

Ni fydd y Swyddog Canlyniadau yn gallu cadarnhau p'un a ydych wedi eich anghymhwyso ai peidio.